

# GWASANAETHAU

## Codi costau am Wasanaethau Cymdeithasol Oedolion

***Os oes angen gwybodaeth arnoch ar ffurf neu iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol***
Ffôn: 01446 704814. E-bost socialcareinfo@valeofglamorgan.gov.uk

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi'r gallu i adrannau gwasanaethau cymdeithasol godi incwm i helpu i dalu am y gwasanaethau gofal a'r cymorth y maent yn eu cynnig.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r rheolau ar gyfer codi costau, sy'n golygu y gallai'r Cyngor ofyn i chi am gyfraniad at gost y gwasanaethau gofal a chymorth rydych chi'n eu cael gan y Cyngor.

Gall y rheolau ynghylch talu am ofal cymdeithasol ymddangos yn gymhleth weithiau; nod y daflen hon yw eich helpu i ddeall y rheolau ond nid yw'n trafod pob sefyllfa, felly fe'ch cynghorir i drafod eich opsiynau â'ch gweithiwr cymdeithasol neu eich Swyddog Asesu Ariannol.

**Argymhellir eich bod yn ceisio cyngor annibynnol os oes gennych bryderon ynghylch eich Asesiad Ariannol.**

### Am ba wasanaethau mae'n rhaid i mi dalu?

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid talu cyfraniad tuag at gost y canlynol:

- Gwasanaethau (Gofal) yn y Cartref
- Gwasanaethau gofal dydd
- Byw â chymorth
- Taliadau uniongyrchol
- Teleofal a TeleV+
- Cartref Preswyl a Gofal Nyrsio – lleoliadau parhaol
- Cartref Preswyl a Gofal Nyrsio – lleoliadau cyfnod byr (hyd at 8 wythnos mewn blwyddyn)
- Cartref Preswyl a Gofal Nyrsio – lleoliadau dros dro (hyd at 52 wythnos)

### Eithrir rhai pobl rhag costau waeth faint yw eu hincwm: -

- Pobl dan 18 oed
- Pobl sy'n byw ag Afiechyd Creutzfeldt Jakob (CJD)
- Pobl y darperir gwasanaethau ôl-ofal iddynt dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983.
- Pobl sy'n cael Cyllid Gofal Iechyd Parhaus (GIP) gan y GIG. Fodd bynnag, sylwer, os bydd Cyllid GIP yn dod i ben, yna gofynnir i chi dalu cyfraniad tuag at gost eich gofal.

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

**Sut penderfynir a oes rhaid i mi dalu cyfraniad at gost fy ngwasanaeth?**
Os ydych yn cael gwasanaeth rydym yn codi costau amdano, bydd angen i'r Cyngor holi am eich incwm wythnosol a chynilon. Gelwir hyn yn 'Asesiad Ariannol'.

Yn dilyn eich asesiad â'ch gweithiwr cymdeithasol, byddwn yn anfon ffurflen asesiad ariannol atoch **i chi ei chwblhau a'i dychwelyd i'r Cyngor o fewn 15 diwrnod gwaith.**

Os yw'n well gennych, gallwch wneud apwyntiad i Swyddog Asesiad Ariannol eich helpu chi a/neu unrhyw un sy'n gweithredu fel cynrychiolydd ariannol drosoch (Twrnai neu Ddirprwy ar gyfer Eiddo a Materion Ariannol) i gwblhau'r ffurflen gyda chi.

Byddem yn disgwyl i chi fod ar gael am apwyntiad o fewn 15 diwrnod gwaith o'r cysylltiad cyntaf â'r Tîm Asesiad Ariannol.

Os hoffech ymweliad, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Asesu Ariannol ar **(01446) 700111** rhwng 9am a 5pm (Llun – Gwener) neu E-bost:

financialassessmentofficers@valeofglamorgan.gov.uk

Gallwch wneud cais am estyn yr amserlenni hyn trwy gytundeb â'r Cyngor. Fel rhan o'r asesiad ariannol, cewch gynnig prawf budd-daliadau, cyngor a chymorth ymarferol i wneud cais am y budd-daliadau efallai y gallwch eu hawlio.

**Os na ddaw ffurflen Asesiad Ariannol wedi ei chwblhau i law'r Cyngor o fewn yr amser a nodir uchod, codir cost arnoch hyd at y gost uchaf a gytunwyd arni fesul wythnos o ddechrau eich gwasanaeth.**

**Faint bydd yn rhaid i mi ei gyfrannu at gost y gwasanaeth?**

Bydd y swm y bydd yn rhaid i chi ei dalu tuag at eich costau gofal yn dibynnu ar eich incwm a chynilon. Caiff union swm eich cost ei gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn **5 diwrnod gwaith** wedi cwblhau eich Asesiad Ariannol ac eglurir sut y cyfrifwyd eich cost mewn 'Datganiad Costau'.

Cewch hefyd gadarnhad ysgrifenedig o'r canlynol:

- Dyddiad taliad cyntaf y gost i chi
- Rhestr taliad cyntaf
- Dulliau talu
- Gwneud cais am adolygiad os ydych chi'n credu bod swm eich cost yn anghywir

**Beth fydd angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ei wybod?**

- **Eich incwm** – gall hyn gynnwys eich enillion, pensiwn ymddeol y wladwriaeth, pensiwn preifat, budd-daliadau nawdd cymdeithasol. Ni ystyrir eich holl incwm wrth gyfrifo eich cost e.e. enillion, Budd-daliadau Tai, Budd-daliad Treth Gyngor a rhai taliadau Lwfans Anabledd neu Daliad Annibyniaeth Personol.
- **Eich all-daliadau** - dyma bethau fel eich rhent (wedi'r budd-dal tai), eich morgais (wedi unrhyw gymorth Cymorth Incwm / Credyd Pensiwn) a'r Dreth Gyngor (wedi Budd-daliad Treth Gyngor).

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

- **Eich cynilon a'ch cyfalaf** – Mae'r cyfyngiadau ar gyfalaf ar hyn o bryd yn £24,000 ar gyfer gofal yn y cartref a gofal seibiant mewn cartref gofal a £50,000 ar gyfer gofal preswyl (ac eithrio seibiant) (26/27).

**Beth os na ddywedaf i wrthoch am fy amgylchiadau ariannol?**

Nid oes rhaid i chi ddweud wrthym ni os yw'n well gennych chi beidio.  Yna bydd y Cyngor yn codi cost cymhorthdal y gwasanaethau rydych yn eu cael arnoch hyd at yr uchafswm gost y cytunwyd arni fesul wythnos am ofal a chymorth amhreswyl a chost llawn eich lle mewn cartref gofal.

Os ydych chi wedi trosglwyddo perchnogaeth eich cartref neu asedau eraill (e.e. cyfrannau neu arian) i rywun arall, mae'n bosibl y cyfrifir gwerth yr eiddo ac asedau fel cynilon/cyfalaf. Bydd y Cyngor yn ymchwilio unrhyw drosglwyddiadau asedau i drydydd parti yn ôl achos.  Mewn amgylchiadau felly, gallai'r Cyngor wrthod ariannu eich costau gofal ac mae ganddo hefyd rym cyfreithiol i adfer yr ased gan y person y rhoesoch e iddo.

**Costau am Ofal Seibiant (hyd at 8 wythnos)**

Mae Canllaw Llywodraeth Cymru yn dweud y cynhwysir gofal seibiant (am hyd at 8 wythnos mewn cartref gofal, fel y nodir yn eich Cynllun Gofal a Chymorth) fel gwasanaeth amhreswyl. Bydd yn destun i'r uchafswm cost ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau amhreswyl, **sef £100 yr wythnos** yn 2026/27.

Cyfrifir costau seibiant o ddydd Llun i ddydd Sul ar gyfer wythnosau llawn a rhannau o wythnosau o seibiant. Codir costau am seibiant am gyfnod hwy nag 8 wythnos fel ar gyfer lleoliad parhaol mewn cartref gofal.

**Costau ar gyfer Gofal Preswyl a Nyrsio**

Os oes gennych chi gynilon a/neu gyfalaf dros £50,000, bydd yn rhaid i chi dalu'r gost safonol ar gyfer y Cartref Gofal rydych chi'n ei ddewis. Ni chewch gymorth ariannol gan Gyngor Bro Morgannwg.

Wedi i ni asesu eich cynilon/cyfalaf a chael eu bod dan £50,000, edrychwn ar eich incwm, yn cynnwys eich pensiynau ac unrhyw fudd-daliadau, gan ddiddymu'r Lwfans Personol, sef swm yr arian y mae'r llywodraeth yn dweud y bydd arnoch ei angen pan fyddwch yn byw mewn cartref gofal.

- Ni fyddwn yn cyfri pensiynau a budd-daliadau eich priod/cymar na'i (h)arbedion.
- Nid ydym yn cyfri unrhyw Ran Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl na Thaliad Annibyniaeth Bersonol.
- Nid ydym yn cyfri £46.35 cyntaf eich incwm wythnosol oherwydd mai dyma swm y Lwfans Personol.
- Nid ydym yn cyfri £5.75 cyntaf unrhyw Gredyd Cynilon rydych yn ei dderbyn bob wythnos.

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

Yn ystod y 12 wythnos gyntaf, bydd y Cyngor yn cwblhau asesiad ariannol ar sail eich incwm a chyfalaf yn unig, heb gyfri gwerth unrhyw eiddo rydych yn byw ynddo fel eich unig neu brif gartref. Dyma eich 'diystyru am 12 wythnos' pan na chynhwysir gwerth eich eiddo wrth gyfri eich cost. Bydd disgwyl eto i chi dalu'r cyfraniad a aseswyd ar eich cyfer i'r cartref gofal o'ch incwm wythnosol.

Os ydych yn byw ar eich pen eich hun yn eich cartref eich hun, o'r 13eg wythnos fe'ch ystyrir yn breswylydd sy'n 'hunan-gyllido'. Gofynnir i chi ad-dalu i'r Cyngor y swm y mae wedi ei dalu tuag at eich lleoliad mewn cartref gofal; eglurwn wrthych sut bydd hyn yn gweithio a sut caiff ei gyfrifo.

Pan fydd yr Awdurdod yn ariannu lleoliad Cartref Gofal, tra bod y gost yn cronni yn erbyn gwerth eiddo'r person, bydd taliadau cyfradd safonol ar gyfer costau gweinyddol a chyfreithiol yn berthnasol, p'un a fyddwch yn dewis cofrestru ar gyfer cytundeb taliad gohiriedig neu beidio.

| **Ffi** | **Pan godir tâl** | **Swm** |
|---|---|---|
| Ffi Gychwynnol i dalu Costau Gweinyddol a Chyfreithiol | Dechrau Ariannu | £215.00 |
| Ffi weinyddol ar gyfer prisio eiddo a ffioedd y Gofrestrfa Tir | Dechrau Ariannu. | £185.00 neu £430 am brisiad manwl, gan gynnwys ymweliad ag eiddo. Prisiad eiddo manwl uwch, ffi trwy drafodaeth. |
| Ffi flynyddol i dalu costau gweinyddol | I'w chymhwyso ar ben-blwydd y cyllid, bob blwyddyn mae'r benthyciad yn ddyledus. | £155.00 |

Os yw eich priod neu eich cymar yn parhau i fyw yn y cartref yn barhaol wedi i chi symud i gartref gofal, ni chynhwysir gwerth eich eiddo yn ein cyfrifiadau. Fodd bynnag, os oes gennych ail gartref a/neu dir, ystyrir gwerth y tir/eiddo hwn fel cyfalaf o wythnos gyntaf eich cyfnod parhaol yn y cartref gofal.

Os yw rhywun arall heblaw eich priod neu gymar yn parhau i fyw yn eich cartref wedi i chi symud i gartref gofal, mae'n bosibl iawn y bydd gwerth yr eiddo hwn (gyda rhai eithriadau) yn cael ei gynnwys yn eich asesiad ariannol. Dylech drafod hyn â Swyddog Asesiad Ariannol.

Gallai'r Cyngor gytuno i ddechrau Cytundeb Taliad Gohiriedig. Golyga hyn na fyddai'n rhaid i chi werthu eich eiddo yn syth er mwyn ariannu eich costau cartref gofal. Yn hytrach na hynny, gallwch "ohirio" gwerthu'r eiddo tan ddyddiad hwyrach. Bydd y Cyngor, trwy fridiant cyfreithiol dros eich eiddo, yn adfer y swm y mae wedi ei dalu am eich gofal. Diddymir y pridiant cyfreithiol wedi i'r Cyngor gael taliad am werth llawn y ddyled sy'n daliadwy. Rhown ragor o wybodaeth i chi am Gytundebau Taliadau Gohiriedig, yn ôl y gofyn.

**Fe'ch cynghorir i geisio cyngor cyfreithiol ac ariannol cyn dechrau Cytundeb Taliad Gohiriedig.**

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

**Costau ar gyfer Gofal a Chymorth Amhreswyl**

Bydd y gost y bydd yn rhaid i chi ei thalu ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl yn cael ei seilio ar eich incwm wythnosol, faint o gynilon a chyfalaf sydd gennych chi a nifer yr oriau o ofal rydych yn eu cael bob wythnos. Bydd uchafswm cost o £100 yr wythnos ym mlwyddyn 2026/2027.

**Penodi rhywun i weithredu ar eich rhan**

Bydd y Cyngor yn cymryd bod gennych y capasiti i reoli eich cyllid eich hunan oni roddwyd gwybod iddo nad yw'r capasiti meddyliol gennych i wneud hynny. Os ydych yn rheoli eich materion ariannol eich hun, anfonir anfoneb am yr holl gostau i'ch cyfeiriad cartref. Rhydd y Cyngor gopi o ohebiaeth i drydydd parti y mae ganddo awdurdod i reoli eich arian cyn belled ag yr ydych wedi rhoi'r awdurdod ysgrifenedig perthnasol i ni.

Os yw rhywun yn gweithredu ar eich rhan, mae'n bwysig ei fod yn gwneud hynny'n ffurfiol, er enghraifft fel Penodai ar gyfer eich budd-daliadau gan y wladwriaeth, Atwrneiaeth arhosol neu Ddirprwy dan y Llys Gwarchod. Yn yr achosion hyn yn unig y bydd y Cyngor yn cysylltu â'ch cynrychiolydd am wybodaeth am eich cyllid ac yna os cymer hwnnw'r cyfrifoldeb dros wneud taliadau, bydd y Cyngor yn ei anfonebu yn uniongyrchol ar gyfer y gost a aseswyd.

**Sut mae talu?**

Bob 4 wythnos, bydd y Cyngor yn anfon anfoneb atoch, yr ydym yn ei hanfon ar ddiwedd ei chyfnod. Mae ystod o ddulliau ar gyfer talu eich anfonebau. Cynhwysir manylion y dulliau hyn ar gefn yr anfoneb a anfonir bob mis ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Debyd uniongyrchol
- Siec
- Mewn unrhyw fanc
- Mewn unrhyw swyddfa bost (gan ddefnyddio cerdyn sweip y cyngor)
- Gyda cherdyn debyd / credyd
- Trwy ddesgiau arian y cyngor

**Beth os nad wyf yn cytuno â'r cyfraniad mae'n rhaid i mi ei wneud?**

Cewch ofyn am gael adolygiad ar eich asesiad ariannol pan ydych yn credu y gwnaed penderfyniad amhriodol, naill ai o ran lefel y gost neu o ran yr wybodaeth a fu'n sail i'r penderfyniad i godi cost. Mae gennych hawl i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn eich asesiad ariannol er enghraifft, os oes gennych chi wariant ychwanegol oherwydd salwch neu anabledd a allai arwain atoch chi'n talu cost is am eich gofal. Ystyrir unrhyw wybodaeth ychwanegol gan Banel Adolygu'r Cyngor, a fydd yn ystyried eich cais am adolygiad.

Mae ffurflen adolygu ar gael ar gais trwy gysylltu â'r Tîm Asesu Ariannol ar **(01446) 704843** rhwng 9am a 5pm (Llun i Gwener) neu E-bost:

financialassessmentofficers@valeofglamorgan.gov.uk

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

Os ydych yn anhapus â phenderfyniad y Panel Adolygu, ac o'r farn nad ydym wedi gwneud penderfyniad wedi'i ystyried yn briodol o ran yr adolygiad, e.e. heb ddilyn ein Polisi Codi Tâl neu heb ystyried gwybodaeth berthnasol yn iawn, yna byddwch yn gallu gwneud apêl bellach ar gais, a fydd yna’n cael ei adolygu gan Uwch Swyddogion.

**Beth os yw fy amgylchiadau ariannol yn newid?**

Os yw eich amgylchiadau ariannol yn newid, rhaid i chi gynghori’r Tîm Asesu Ariannol cyn gynted â phosibl oherwydd y gallai hyn effeithio ar eich cost a aseswyd. Os ydych chi’n ansicr, rhowch wybod i ni a byddwn yn eich cynghori â chroeso.

Dyma newidiadau y dylech roi gwybod i ni amdanynt:

- Derbyn budd-dal newydd
- Newid yn eich cyfalaf
- Newid yn eich incwm neu eich gwariant a ganiateir.

Os rhowch wybod i’r Cyngor am unrhyw newidiadau, byddwch yn sicrhau y codir cost deg a chywir arnoch.

**Beth sy’n digwydd os na fyddaf yn talu?**

Os nad ydych yn talu eich costau, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i wybod y rhesymau dros hyn. Pan fydd yn glir bod y ddyled yn ddyledus, bydd y Cyngor yna’n cymryd camau i adennill y ddyled yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**O ble caf i gyngor ariannol annibynnol?**

Rydym yn ymwybodol y gall cynllunio at eich anghenion gofal a chymorth yn y dyfodol fod yn gymhleth a gall eu hariannu fod yn ddrud.  Gall fod yn ddefnyddiol cael cyngor proffesiynol i roi’r gallu i chi (a’ch teulu) benderfynu pa ateb yw’r mwyaf addas a chost effeithiol.

Mae nifer fawr o sefydliadau a rydd gyngor cyffredinol am ddim ynghylch ariannu gofal a chymorth. Mae’r rhain yn lle da i ddechrau os ydych yn chwilio am wybodaeth ac rydych am weld pa fath o opsiynau sydd ar gael.

**Y Gwasanaeth Cyngor Ariannol** Rhif Ffôn 0800 138 7777
https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy

**Mental Health Matters**  Rhif Ffôn – 0300 10 249 70 neu 01656 649 557
contact@vale-ipa.co.uk neu vale-ipa@mhmwales.org

**Cyngor ar Bopeth** Ffôn Rhif Llinell Gymorth 034554 04 05 06
https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/

**“Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English.”**

**SS/CAS/26**

**“Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English.”**